# Fframwaith Mesur Perfformiad

**Datganiad**

Wedi'i ddiweddaru
Cyhoeddwyd 18 Gorffennaf 2023

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad ........ 3
2. Y Fframwaith Mesur Perfformiad ........ 4

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'n ofynnol i'r BBC o dan y Siarter a'r Cytundeb i gyflawni ei Genhadaeth, sef “gweithredu er lles y cyhoedd, gan **wasanaethu pob cynulleidfa** drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy’n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu”. [1] Mae hefyd yn ofynnol iddo hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus. Yn gryno, dyma’r materion hynny:

i) darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd;
ii) cefnogi dulliau dysgu;
iii) dangos allbwn creadigol, unigryw ac o’r ansawdd gorau;
iv) adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU a chefnogi’r economi greadigol ledled y DU.[2]

1.2 Fel rhan o’n dyletswyddau rheoleiddio, efallai y byddwn yn gosod mesurau i asesu perfformiad y BBC[3] ac mae’n rhaid i ni adrodd ar ei berfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn[4] – rydym yn gwneud hyn drwy ein Hadroddiad Blynyddol ar y BBC. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad data rhyngweithiol blynyddol sy’n casglu’r data a ddefnyddiwyd yn ein hasesiad o berfformiad y BBC. Mae’r broses asesu perfformiad hon ar wahân i’n gwaith yn asesu cydymffurfiad y BBC ag amodau’r Drwydded Weithredu.

1.3 Mae’n rhaid i ni hefyd osod amodau yn Nhrwydded Weithredu’r BBC rydyn ni’n credu sy’n briodol ar gyfer mynnu bod y BBC yn cyflawni’r Genhadaeth ac yn hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus.[5]

1.4 Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddwyd y Drwydded Weithredu newydd a oedd yn cynnwys tair egwyddor gyffredinol: ymgorffori darpariaeth ar-lein yn fwy cynhwysfawr; rhoi mwy o hyblygrwydd i'r BBC gyflawni’n well ar gyfer cynulleidfaoedd; a mwy o dryloywder i ddal y BBC i gyfrif. Yn ein datganiad ar Foderneiddio Trwydded Weithredu’r BBC, fe wnaethom nodi y byddwn yn gwella ein rhaglen waith monitro a goruchwylio perfformiad y BBC.

1.5 Mae’r Fframwaith Mesur Perfformiad (‘y Fframwaith’) hwn yn nodi’r fframwaith ar gyfer mesur perfformiad y BBC ac yn cyfrannu at ein dull o fonitro a goruchwylio perfformiad y BBC. Mae’n nodi’r mesurau perfformiad ac enghreifftiau o’r metrigau sylfaenol mae Ofcom yn eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC o ran cyflawni’r Genhadaeth a hyrwyddo’r Dibenion Cyhoeddus.

---

[1] Y Genhadaeth a’r Dibenion Cyhoeddus
[2] Erthygl 6 y Siarter
[3] Erthygl 46(4) o’r Siarter a chymal 14(2) o’r Cytundeb
[4] Cymal 14(5) o’r Cytundeb
[5] Erthygl 46(3) o’r Siarter a Chymal 13 o’r Cytundeb

# 2. Y Fframwaith Mesur Perfformiad

2.1 Mae ein fframwaith yn cynnwys pedwar mesur perfformiad a set o egwyddorion y byddwn yn eu hystyried wrth ddefnyddio'r mesurau perfformiad. Yn sail i'r pedwar mesur perfformiad mae nifer o fetrigau a ffynonellau data rydym yn eu defnyddio i asesu perfformiad y BBC. Gall y metrigau a'r ffynonellau data penodol rydym yn eu defnyddio newid wrth i allbwn ac ymddygiad cynulleidfaoedd y BBC newid ac wrth i ffynonellau data newydd a mwy addas ddod ar gael.

2.2 Bydd y pedwar mesur perfformiad a nodir isod yn cael eu defnyddio i fesur teledu a radio sy'n cael eu darlledu yn ogystal â darpariaeth ar-lein drwy BBC iPlayer, BBC Sounds a'r wefan a'r apiau. Maent yn ddigon eang i ddarparu ar gyfer datblygiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd gan y gallwn addasu manylion y metrigau a'r data rydym yn eu defnyddio yn unol â hynny. Mae'r mesurau perfformiad hyn yn cael eu defnyddio ar draws y pedwar Diben Cyhoeddus.

2.3 Dyma'r pedwar mesur perfformiad:

a) **Argaeledd**: mae hyn yn disgrifio natur, math, swm ac amrywiaeth y cynnwys sydd ar gael ar draws gwasanaethau'r BBC, yn ogystal â'r gwariant ar y cynnwys hwn. Mae hwn yn gategori 'gwaelodlin' sy'n helpu i greu dealltwriaeth gadarn o natur y cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC.
b) **Defnyddio:** mae hyn yn monitro i ba raddau y mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cynnwys sy'n cael ei ddarparu gan y BBC. Mae'r categori yma'n rhoi golwg gyffredinol ar gyrhaeddiad cynnwys a'r amser sy'n cael ei dreulio'n defnyddio cynnwys y BBC, yn ôl gwasanaeth, llwyfan neu ar draws llwyfannau.
c) **Effaith**: sy'n edrych yn fanwl ar beth mae cynulleidfaoedd yn ei feddwl am wasanaethau ac allbwn y BBC a'r effaith y mae'r gwasanaethau a'r allbynnau hyn yn ei chael ar gynulleidfaoedd, gan gynnwys eu boddhad ag agweddau amrywiol ar hyrwyddo'r BBC o'r Dibenion Cyhoeddus.
d) **Ffactorau cyd-destunol:** Mae rhai elfennau o bob Diben Cyhoeddus nad oes modd eu mesur dim ond drwy'r mesurau uchod. Er enghraifft, byddai unrhyw asesiad o record y BBC o ran cymryd risgiau creadigol a darparu cynnwys arloesol yn elwa o ystyried dadansoddiad ychwanegol sy'n cael ei ddarparu gan y BBC, neu farn rhanddeiliaid yn y diwydiant. Gall ffactorau cyd-destunol eraill amrywio o un flwyddyn i'r llall.

2.4 Mae ein hegwyddorion craidd, a fydd yn arwain y ffordd rydyn ni'n defnyddio ein mesurau perfformiad, wedi'u nodi yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Egwyddorion craidd y fframwaith mesur perfformiad**

| | Disgrifiad |
|---|---|
| **Hyblygrwydd** | Byddwn yn defnyddio dull gweithredu hyblyg gyda'r metrigau sy'n gysylltiedig â'r mesurau perfformiad. Mae hyblygrwydd yn bwysig yn y fframwaith oherwydd gall metrigau a ffynonellau data newid a datblygu ac mae angen i ni allu defnyddio'r metrigau mwyaf priodol wrth asesu perfformiad y BBC. |
| **Cymesuredd** | Byddwn yn defnyddio dull cymesur wrth ofyn am dystiolaeth o allbwn a pherfformiad y BBC, a'i hasesu. Er enghraifft, wrth fesur perfformiad ar gyfer gwahanol grwpiau cynulleidfa, byddwn yn cydbwyso pa mor ddymunol yw deall is-grwpiau ar wahân ag ymarferoldeb a chost gwneud hynny. Byddwn yn casglu tystiolaeth am y BBC yn gyffredinol, a data sy'n benodol i wasanaethau pan fo hynny'n ymarferol ac yn arwain at wybodaeth. Ni fyddwn yn mesur pob agwedd o bob Diben Cyhoeddus yn drwyadl yn erbyn pob gwasanaeth, pob cynulleidfa neu bob rhan o'r dydd. |
| **Ymarferoldeb** | Yn gyffredinol, byddwn yn ceisio defnyddio metrigau meintiol lle mae'n ymarferol ac yn realistig gwneud hynny. Lle nad yw mesur meintiol yn bosibl, byddwn yn defnyddio metrigau ansoddol i'n helpu i asesu perfformiad ac effaith y BBC. |
| **Tryloywder** | Rydym yn credu y dylai fod yn glir ac yn syml deall y metrigau sy'n gysylltiedig â phob mesur. |
| **Dibynadwyedd/Cadernid** | Yn achos ymchwil ymysg cynulleidfaoedd, dylai'r offer mesur fod o faint digon mawr i allu edrych ar farn is-grwpiau penodol dros amser, pan fo hynny'n ymarferol. |
| **Cymaroldeb** | Pan fo hynny'n briodol a phan fydd y wybodaeth ar gael, byddwn yn meincnodi darpariaeth y BBC yn erbyn gwasanaethau a chynnwys ar-lein/darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill/y sector masnachol. |

**2.5** Mae Ffigur 2 yn rhoi enghreifftiau o rai o'r metrigau rydym yn eu defnyddio i fonitro sut mae'r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus. Er y bydd llawer o'r metrigau rydym yn eu defnyddio yn aros yn gyson o un flwyddyn i'r llall er mwyn gallu cymharu, lle bo hynny'n briodol, efallai y byddwn yn diweddaru metrigau a ffynonellau data i adlewyrchu datblygiadau yn ein ffordd o feddwl ac i adlewyrchu newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, technoleg a'r farchnad wrth asesu perfformiad y BBC.

**Ffigur 2: Enghreifftiau o ffynonellau data sy'n berthnasol i'r fframwaith mesur perfformiad**

| | Metrig |
|---|---|
| **Argaeledd** | Allbwn y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, oriau yn ôl gwasanaeth, genre, amser o'r dydd, a ffynhonnell (boed hynny'n gynnwys gwreiddiol neu wedi'i brynu, yn cael ei ddangos am y tro cyntaf neu'n cael ei ailadrodd). |
| | Gwariant ar gynnwys y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, gwariant cyffredinol yn ôl platfform (teledu, radio, ar-lein), a gwariant rhaglenni teledu yn ôl genre, sianel a ffynhonnell (rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, rhaglenni sy'n cael eu prynu, a chynnwys sy'n cael ei ailadrodd). |
| **Defnydd** | Gwylio teledu: gan gynnwys, er enghraifft, yn ôl genre a gwasanaethau, a ddarperir fel arfer mewn munudau. |
| | Gwylio ar BBC iPlayer: gan gynnwys, er enghraifft, cymariaethau â phlatfformau SVoD a BVoD eraill. |
| | Gwrando ar y radio: gan gynnwys, er enghraifft, cyrhaeddiad gorsafoedd, proffiliau cynulleidfaoedd gwahanol orsafoedd a chyfran y gwrando cyffredinol ar y radio. |
| | Gwrando ar BBC Sounds: gan gynnwys, er enghraifft, cyrhaeddiad ymysg gwrandawyr podlediadau, defnyddio BBC Sounds ar gyfer cynnwys newyddion a phroffil cynulleidfa yn ôl oedran. |
| | Cael gafael ar gynnwys ar wefan y BBC: gan gynnwys, er enghraifft, porwyr unigryw i safleoedd newyddion y BBC a chyrhaeddiad yn ôl demograffeg. |
| **Effaith** | Barn cynulleidfaoedd: gan gynnwys, er enghraifft, sgoriau gwasanaethau'r BBC, canfyddiadau o natur unigryw, barn am berthnasedd cynnwys a chynrychiolaeth. |
| | Effaith uniongyrchol ar gynulleidfaoedd: gan gynnwys, er enghraifft, datblygu metrigau sy'n ein helpu i werthuso'r effaith mae cynnwys wedi'i chael ar gynulleidfaoedd. |
| **Ffactorau Cyd-destunol** | Mae ffactorau cyd-destunol yn fesur eang, a allai gynnwys amrywiaeth o fetrigau, gan gynnwys, er enghraifft, deall allbwn y BBC yng nghyd-destun tueddiadau a data ehangach y farchnad. |

2.6 Rydym yn cael data o nifer o ffynonellau, gan gynnwys y BBC ei hun, sy'n darparu gwybodaeth i ni drwy ei gyhoeddiadau strategol, ymatebion i geisiadau blynyddol am wybodaeth a cheisiadau rheolaidd am wybodaeth. Rydym hefyd yn defnyddio ffynonellau data annibynnol y diwydiant a thrydydd parti ac yn cynnal ein hymchwil a'n dadansoddiad ein hunain o'r farchnad. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid hefyd yn fewnbwn hollbwysig ar gyfer monitro. Dylid nodi, nad ydy ein hasesiad cyffredinol o sut mae pob Diben Cyhoeddus yn cael ei gyflawni yn dibynnu ar unrhyw ffynhonnell ddata unigol.